| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 92 – Parti Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9 |
| | **Gyda'n Gilydd, Robin Llwyd ab Owain** |

Beth a wnawn pan fo'r nos yn hir?
I ble yr awn pan ymguddia'r gwir?
Pa beth gawn pan nad yw'r môr ar dir?
Dim ond traeth ar drai.

Pwy sy'n gwylio os na wyliwn ni?
Pwy a'i ceidw os na chadwn hi?
Pwy a'i câr os na charwn hi?
Dim ond traeth ar drai.

Draw o'n blaen mae ei phen llanw hi,
Draw drwy'r niwl fe feddiannwn hi;
Gyda'n gilydd fe orchfygwn ni,
Draw 'mhenllanw'r traeth.

Gyda'n gilydd fe'i cofleidiwn hi,
Gyda'n gilydd gydag angerdd yn ein cri, fe floeddiwn,
Bloeddiwn gyda'n gilydd nawr mae'r llanw'n troi,
Gyda'n gilydd gwelwn fod y nos yn araf ffoi.